Hawdd ei Ddeall

Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

# Goruchwylio + 2026

## Sut i wneud cais i ddatblygu eich gyrfa drwy helpu yn arddangosfa gelf Cymru yn Fenis



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Goruchwylio + 2026.**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.celf.cymru

**Ebost:** cymruynfenis@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


Am Goruchwylwyr +2026 .................................... 4

Am Biennale Fenis .................................... 6

Sut fydd Goruchwylwyr + yn gweithio .................................... 8

Pwy sydd yn gallu gwneud cais .................................... 11

Pwy rydyn ni eisiau .................................... 16

Beth fyddwch chi'n ei wneud .................................... 18

Cefnogaeth ar gael .................................... 20

Dyddiadau pwysig .................................... 23

Sut i wneud cais .................................... 24

Os ydych chi angen help .................................... 27

# Am Goruchwylwyr + 2026


Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.

Cymru yn Fenis
Wales in Venice
Il Galles a Venezia

Mae **Goruchwylwyr +** yn rhaglen i bobl ddatblygu eu gyrfa drwy helpu yng **Nghymru yn Fenis**.



Mae **Cymru yn Fenis** yn arddangosfa gelf. Mae hyn yn meddwl ei bod yn sioe lle mae gwahanol weithiau celf yn cael eu harddangos.




Mae'n rhan o ddigwyddiad celf mawr yn Fenis yn yr Eidal o'r enw **Biennale Fenis**.




Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal rhwng 9 Mai 2026 a 22 Tachwedd 2026.




Mae’r grant yn rhoi arian i’ch helpu chi gyda chostau teithio a chostau eraill tra byddwch chi yn Fenis.

Os ydych chi’n gweithio yn y celfyddydau gweledol, mae’n gallu eich helpu i:




- Ymweld â gwlad newydd a gweld celf newydd.



- Cyfarfod pobl newydd sy’n gweithio ym maes celf.



- Gwella eich gwaith creadigol eich hun.

# Am Biennale Fenis



Biennale Fenis ydy'r ŵyl gelfyddydau weledol fwyaf yn y byd. Celfyddydau gweledol ydy pethau fel peintiadau, cerfluniau, fideos a darluniau.



Mae ganddo fwy na 700 mil o ymwelwyr.



Mae Cymru wedi cymryd rhan yn Biennale Fenis ers 2003.



Mae thema Biennale Fenis 2026 am artistiaid sy'n bobl sydd yn:

- Helpu ni i ddeall cymdeithas a theimladau.

- Gwneud syniadau a ffyrdd newydd o gysylltu â phobl.

# Cymru yn Fenis 2026



Yr artistiaid Manon Awst a Dylan Huw fydd yn arwain y prosiect. Maen nhw'n gweithio gyda 2 oriel yng Nghymru:

- Oriel Davies yn y Drenewydd.
- Oriel Myrddin yng Nghaerfyrddin.



Mae Manon Awst yn gwneud cerfluniau a gweithiau celf am bobl, lleoedd a natur. Mae ei gwaith yn edrych ar sut mae deunyddiau yn gallu newid lleoedd a sut rydyn ni'n byw.



Mae Dylan Huw yn artist ac awdur. Mae'n dod â phobl a syniadau o wahanol ieithoedd a lleoedd at ei gilydd.



Mae Manon a Dylan yn anelu at greu gofod bywiog a newidiol ar gyfer celf a syniadau.



Fe fydd ymwelwyr yn gweld arddangosfa ddiddorol am ddeunyddiau, iaith a natur.

# Sut fydd Goruchwylwyr + yn gweithio



Fe fyddwn ni'n dewis 11 o bobl i ymuno â thîm goruchwylio Cymru yn Fenis 2026.




Mae hwn yn gyfle i gael profiad y tu allan i'r DU a dysgu sgiliau newydd i helpu eich gyrfa.



Fe fydd 3 o bobl yn Fenis trwy'r amser:

- 2 o bobl wedi'u dewis drwy'r cais yma.
- 1 myfyriwr wedi eu dewis gan brifysgolion.

## Beth fyddwch chi'n cael ei wneud

Fe fyddwch chi'n gallu:



- Gweithio mewn gofod celf mae pobl o bob rhan o'r byd yn ymweld.



- Cyfarfod pobl newydd a gwneud cysylltiadau gwaith.



- Gweld Biennale Fenis yn bersonol.



- Gwella eich sgiliau cyfathrebu a siarad cyhoeddus.



- Teimlo'n fwy hyderus i weithio yn y celfyddydau mewn gwledydd eraill.

## Mathau o gyfleoedd




**Goruchwylwyr + 8-wythnos**




Mae hyn ar gyfer pobl sydd â hyd at 5 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y celfyddydau gweledol.




Rhaid i chi hefyd fod wedi gweithio am o leiaf 3 mis mewn sefydliad celfyddydol yng Nghymru.




**Goruchwylwyr + 4 wythnos**




Mae hyn ar gyfer pobl sydd â hyd at 5 mlynedd o brofiad yn gweithio yn y celfyddydau gweledol.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais

Mae'r prosiect yma yn agored i:



- Arlunwyr.



- Pobl sy'n helpu i wneud arddangosfeydd.



- Ysgrifenwyr.



- Pobl sy'n helpu i drefnu neu gefnogi prosiectau celf weledol.

Rydyn ni’n croesawu ceisiadau gan bobl sydd:




- Gyda phrofiad o helpu gydag arddangosfeydd celf neu rolau tebyg.




- Yn hyderus yn siarad Saesneg, Cymraeg neu ieithoedd eraill.



- Gwybod llawer am gelf Cymru nawr.

- Eisiau rhannu gwybodaeth am gelfyddydau gweledol Cymru.



- Diddordeb mewn gwaith y tu allan i’r DU.



Dyma’r prif bethau y byddwn ni’n edrych arnyn nhw pan fyddwn ni’n asesu eich cais.

Rydyn ni wir eisiau ceisiadau gan bobl sydd:



- O gefndiroedd mwyafrif ethnig byd-eang.
- Anabl.
- LHDTQIA+.
- Wynebu heriau cymdeithasol neu ariannol.




Does dim angen i chi gael addysg ffurfiol i wneud cais.

**Rhaid i chi:**




- Bod yn 18 oed neu'n hŷn. Byw yng Nghymru neu wybod am gelfyddydau gweledol Cymru yn dda.



- Dim mewn addysg llawn amser mewn ysgol, coleg neu brifysgol.




- Bod yn rhydd ar gyfer diwrnodau hyfforddi ym mis Mawrth 2026.



- Bod yn gallu cynllunio ac archebu eich taith eich hun i Fenis. Gallu aros yn Fenis am o leiaf 4 wythnos rhwng Mai a Thachwedd 2026.



- Bod yn hyderus wrth siarad â gwahanol bobl.



- Cael syniad ymchwil sy'n gysylltiedig â'ch gwaith creadigol. Fe fyddwn ni'n gofyn i chi siarad am hyn os ydych chi'n cael cyfweliad.




Mae pobl sydd wedi cymryd rhan o'r blaen yn gallu gwneud cais. Ond fe fyddwn ni'n rhoi cyfle i ymgeiswyr newydd yn gyntaf.

# Pwy rydyn ni eisiau

Rydyn ni'n chwilio am bobl sydd yn:



- Meddwl llawer o'r celfyddydau gweledol yng Nghymru.



- Yn gallu siarad mewn ffordd glir a hyderus.



- Yn gallu siarad â gwahanol bobl.



- Yn gallu siarad am yr arddangosfa mewn ffordd dda.


## Nifer o leoedd



Fe fyddwn ni’n rhoi 11 lle trwy’r cais yma.



Fe fydd prifysgolion yng Nghymru yn rhoi 7 lle arall.



Mae hyn yn meddwl y bydd cyfanswm o 18 o bobl yn mynd i Fenis.

# Beth fyddwch chi'n ei wneud




Fe fyddwch chi'n treulio o leiaf 1 mis yn Fenis.



Fe fyddwch chi'n helpu i rannu arddangosfa Cymru yn Fenis gydag ymwelwyr.

Fe fyddwch chi yn:



- Helpu i edrych ar ôl y celf a siarad gyda phobl sy'n ymweld.



- Rhannu stori a llwyddiant yr arddangosfa gelf.



- Cael cyfle i ymweld ag arddangosfeydd eraill yn y Biennale Fenis a dysgu oddi wrthyn nhw.

# Eich prif dasgau



Tra byddwch chi yn Fenis, fe fyddwch chi'n helpu i ofalu am yr arddangosfa bob dydd.

Fe fyddwch chi yn:



- Agor a chau'r arddangosfa a chadw yr allweddi yn ddiogel.



- Gofalu am weithiau celf a rhoi gwybod am unrhyw broblemau.
- Cadw'r gofod yn lân, yn daclus ac yn groesawgar.




- Siarad ag ymwelwyr am yr arddangosfa a chelf Gymreig.
- Cyfrif a chofnodi niferoedd ymwelwyr.



- Dangos pobl o gwmpas yr arddangosfa.
- Helpu i wneud a rhannu diweddariadau prosiect ar-lein.

# Cefnogaeth ar gael

Fe fydd y grant yn talu am:



- Teithio a throsglwyddiadau yn ôl.



- Arian dyddiol ar gyfer costau byw.



- Tocynnau Biennale a rhywfaint o deithio lleol.



Fe fydd tai sydd yn cael eu rhannu yn cael eu darparu yn Fenis.

# Cymorth mynediad



Dywedwch wrthyn ni am eich anghenion mynediad pan fyddwch chi'n gwneud cais. Rydych chi'n gallu ateb y cwestiwn mynediad yn y ffurflen.



Os ydyn ni'n penderfynu eich cyfweld, fe fyddwn ni'n rhoi mwy o wybodaeth i chi, fel ein bod yn gallu cynllunio addasiadau.



Rydych chi hefyd yn gallu rhannu eich anghenion mynediad gan ddefnyddio ein dogfen fer o'r enw **Dogfen Hygyrchedd**.




Mae'r templed ar gael yma: [www.arts.wales/cy/resources/access-rider-template](www.arts.wales/cy/resources/access-rider-template)

Os ydych chi'n cael cyllid, fe fyddwn ni'n:



- Gweithio gyda chi i ddeall ac ateb eich anghenion mynediad.



- Gwneud **addasiadau rhesymol** a darparu cymorth lle mae hynny'n bosibl.




Mae **addasiadau rhesymol** yn newidiadau i helpu pobl anabl i wneud pethau fel pawb arall. Er enghraifft, rhoi rampiau mewn adeiladau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Neu roi gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.





- Talu rhai costau ychwanegol i'ch helpu i gymryd rhan.




Fe fyddwn ni'n gwneud ein gorau glas i ateb eich anghenion, ond dydyn ni ddim yn gallu rheoli rhai pethau.

# Dyddiadau pwysig




**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:**
**10 Rhagfyr 2025 am hanner dydd**

**Penderfyniadau ar y rhestr fer:**
9 Ionawr 2026

**Cyfweliadau:**
19 a 20 Ionawr 2026

**Penderfyniadau terfynol:**
26 Ionawr 2026

**Cytundeb grant ac amserlen talu:**
13 Chwefror 2026

**Sesiwn hyfforddi:**
Mawrth 2026

# Sut i wneud cais




Gwnewch gais trwy ein porth ar-lein yma:
porth.celf.cymru



Os nad ydych chi wedi ei ddefnyddio o'r blaen, fe fydd angen i chi gofrestru yn gyntaf.



Os nad ydych chi'n gallu defnyddio'r ffurflen ar-lein, anfonwch e-bost i ni ac fe fyddwn ni'n gallu helpu:
grantiau@celf.cymru



**Cam 1: Llenwch y ffurflen**

Llenwch y ffurflen gais Goruchwylwyr + ar y porth ar-lein.

## Cam 2: Uwchlwythwch eich CV




Ddylai eich CV ddim fod yn fwy na 2 dudalen A4. Fe ddylai gynnwys:

- Eich addysg a'ch hyfforddiant.
- Swyddi rydych chi wedi'u gwneud.
- Unrhyw arddangosfa gelf neu orielau rydych chi wedi helpu gyda nhw.
- Arddangosfa gelf a phrosiectau celf rydych chi wedi'u gwneud.
- Sgiliau iaith, gan gynnwys Cymraeg.
- Dolenni i'ch gwefan gelf neu'ch cyfryngau cymdeithasol.
- Manylion cyswllt ar gyfer 1 person rydyn ni'n gallu cysylltu gyda nhw amdanoch chi os fyddwn ni'n penderfynu eich cyfweld.




Dydyn ni ddim yn gallu derbyn gwybodaeth ychwanegol ar ôl i chi gyflwyno'ch ffurflen. Does dim angen i chi gynnwys cyllideb.

**Cam 3: Ar ôl i chi wneud cais**



- Fe fyddwch chi'n cael e-bost gennym ni i ddweud ein bod wedi derbyn eich cais.



- Os ydy eich cais yn bodloni beth rydyn ni wedi gofyn amdano, fe fyddwn ni'n edrych arno yn fwy.



- Os byddwch chi ar y rhestr fer, fe fyddwn ni'n eich gwahodd i gyfweliad ar-lein.



- Dydyn ni ddim yn gallu rhoi unrhyw adborth unigol gan fod gennym ni lawer o geisiadau.

# Os ydych chi angen help

Ar gyfer unrhyw broblemau wrth lenwi eich cais neu ddefnyddio'r porth, cysylltwch â:

**Y Tîm Grantiau a Gwybodaeth**



**Ebost:** grantiau@celf.cymru



**Ffôn:** 03301 242733



Ar gyfer cwestiynau eraill am y prosiect, anfonwch e-bost i ni yn: cymruynfenis@celf.cymru




Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.celf.cymru